# Ysgol Llannon School

## Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr

## 2019-2020

## Governors’ Annual Report

## ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR 2019-2020

**Cadeirydd y Corff Llywodraethol:** Mr James Ellis
Ysgol Gynradd Llannon
Heol Nant
Llannon
Llanelli
SA14 6AE

**Clerc i'r Corff Llywodraethol:** Mrs M Evans
Ysgol Gynradd Llannon
Heol Nant
Llannon
Llanelli
SA14 6AE

Cofrestr cyflawn o'r Llywodraethwyr:

| | | |
|---|---|---|
| Mr J Ellis | Rhiant | 31.12.2023 |
| Cllr E Dole | AALl | 04.09.2020 |
| Mrs Ll Watkins | AALl | 20.03.2024 |
| Mr A G Owens | Cymunedol | 15.02.2021 |
| Miss J M Langabeer | Pennaeth | - |
| Mrs S Murphy | Athrawes | 20.05.2022 |
| Mr E Wood | Rhiant | 11.02.2024 |
| Mrs K Phillips | Rhiant | 23.10.2023 |
| Mrs A M Thomas | Cymunedol | 22.02.2024 |
| Mrs V Hayes | Cymunedol | 20.05.2022 |

<u>Rhagair y Cadeirydd</u>

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad y Llywodraethwyr i Rieni. Teimlaf y dylwn ddecharu gyda'r hyn sydd wedi trechu popeth ers mis Mawrth 2020 a chyfleu fy

niolchiadau, parch ac edmygedd i Marie a'r tîm yn Ysgol Llannon am y ffordd maent wedi delio â sialensau yn sgîl y pandemig.

Maent oll wedi cefnogi dysgwyr ar lein, mynychu'r Hwb i ofalu am blant gweithwyr allweddol ynghyd â'r holl waith i sicrhau ailagor yr ysgol yn ddiogel.
Dylai'r tîm fod yn falch iawn o'u hunain ac rwy'n siwr fy mod yn siarad ar ran y Llywodraethwyr a'r rhieni oll wrth ddiolch yn fawr iawn iddynt.

Rydym ni fel Llywodraethwyr yn gweithio yn agos iawn gyda staff yr ysgol a rhanddeiliaid allweddol allanol. Rydym oll yn dod ag arbenigedd gwahanol i sicrhau addysg o'r radd flaenaf gan sicrhau fod bywyd ysgol yn ddiogel a phleserus i bawb. Wrth adlewyrchu ar holl lwyddiannau a pherfformiad yr ysgol eleni, teimlaf yn falch iawn o waith y Corff Llywodraethol wrth gefnogi'r pennaeth a'r staff i gynnal yr holl llwyddiannau mae'r ysgol yn eu mwynhau. Mae Ysgol Llannon yn ysgol sy'n cynnal safonau uchel ac yn sicrhau profiadau amrywiol addysgiadol, diwylliannol ac ym maes chwaraeon i bob disgybl. Profiadau sydd ar hyn o bryd, oherwydd sefyllfa byd eang, yn brin, ond a fydd yn dychwelid. Pan ddigwydd hyn bydd ein hathrawon a staff, yn sicrhau bod disgyblion ein hysgol fach ni yn dychwelid i gystadlu ac i ennill ar lefel cenedlaethol unwaith eto. Mae llwyddiannau eleni yn cynnwys:

- Llewelyn Josey yn fuddugol yng nghystadleuaeth Canned a TaTa Steel ar ddylunio a chreu pecyn o ddefnyddiau wedi eu hailgylchu.
  Ennillodd £25 a rhoiodd yn rhodd i Gronfa Hywel Dda.
- Y Cyngor Ysgol Iach yn fuddugol i gael gwobr am eu gwaith ar Ddiogelwch.
- Y Cyngor Eco yn fuddugol i gynnal y trydydd wobr Platinwm.
- Bu Lewis Thomas yn cynrychioli'r ysgol ar y Bwrdd Gweithredol Bach fel Emlyn Bach.
- Lewis Thomas yn llwyddiannus i gael y wobr gyntaf wrth ddylunio carden Nadolig
- Cwis Llyfrau Cymru Gyfan- tîm blwyddyn 3 a 4 a thîm bwyddyn 5 a 6 yn cynrychioli'r ysgol ar lefel sirol
- Llwyddiannau nifer o ddisgyblion yn rhagbrofion yr Urdd
- Disgyblion yn cael eu dewis i chwarae pêl droed i Sir Gâr gyda Lili Ellis yn cael ei choroni yn Chwaraewr Sir y flwyddyn
- Callum Clarke ar fod yn fuddugol wrth ddylunio poster am covid 19.

Hoffwn hefyd estyn fy niolch i ddisgyblion Blwyddyn 6, sydd erbyn hyn wedi trosglwyddo i'w hysgolion uwchradd. Oherwydd Covid 19 nid oedd yn bosibl i ddathlu eich rhan allweddol chi i fywyd ysgol Llannon yn y ffordd arferol. Ond cofiwch ein bod ni i gyd yn falch iawn o bob un ohonoch.

Mae'r ysgol yn dal i gynllunio i'r dyfodol ac rydym wedi ychwanegu ystafell addysgu allanol/ ty gwydr sef lle allanol a fydd yn ychwanegu at brofiadu creadigol pob disgybl.

Hoffwn groesawu Sioned Huxtable i'r tîm addysgu, tra fod Mrs Murphy ar gyfnod mamoliaeth. Mae Miss Huxtable wedi chwarae rhan allweddol yn cynnal y safonau uchel a osodwyd gan y tîm addysgu. Tîm sy'n cynnwys, nid yn unig staff addysgu, ond yr holl staff sy'n cefnogi rhediad llwyddiannus yr ysgol o ddydd i ddydd, yn cynnwys staff y gegin, aelodau'r CRhA, y Meithrin a'r Clwb ar ôl ysgol.
Hoffwn hefyd estyn fy niolchiadau i Mrs Marie Jenkins Clerc y Llywodraethwyr yr Ysgol am ei holl gwaith dros un ar bymddeg o flynyddoedd, gan ddymuno pob iechyd a mwynhad iddi ar ei hymddeoliad.

Ar ran corff Llywodraethol Ysgol Llannon hoffwn ddiolch i'n pennaeth. Tra'n arwain dwy ysgol mae Miss Langabeer yn gweithio'n ddiflino i sicrhau fod Ysgol Llannon yn cynnal llwyddianniau'r gorffennol tra'n parhau i ddatblygu i'r dyfodol.

Mr James Ellis
Cadeirdd y Llywodraethwyr

Ysgol Llannon School

Adroddiad Blynyddol 2019-2020
Corff Llywodraethol Rhif 69

**Staffio Haf 2020**

Rhif y disgyblion ar y gofrestr ar ddechrau'r tymor = 102

Nifer o ddosbarthiadau = 4

Blwyddyn 5 a 6 – Mrs W Williams /Mr S Owen = 34 o ddisgyblion

Blynyddoedd 3 a 4 – Miss A Voyle = 24 o ddisgyblion

Cyfnod Sylfaen – Mrs S Murphy a Mr Harri Edwards = 44 o ddisgyblion
Meithrin/Derbyn - 6 disgybl, Dosbarth Derbyn - 9 o ddisgyblion, Blwyddyn 1=13, Blwyddyn 2=16 disgybl.

Athrawon Peripatetig sy'n ymweld â'r ysgol:

| | |
|---|---|
| Mr G Thomas – | Pres |
| | Recorders i Flynyddoedd 3, 4, 5 a 6 |
| Mr Phil Shingler - | Chwythbrennau |

Staff Cynorthwyol

Mrs M Evans, Miss H Randall a Miss S Roberts.

# Ysgol Llannon School

Ysgol cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Llannon.
Addysgir y Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg.
Cyflwynir Saesneg fel pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2. Caiff ddisgyblion sy'n ymuno â'r Ysgol yng Nghyfnod Allweddol 2 eu cefnogi gan Athrawes o Dîm AGAD Sir Gar-Athrawon y Gymraeg a Dwy ieithrwydd.
Mae pob cyswllt â rhieni yn hollol ddwy ieithog. Hefyd, mae Ysgol Llannon wedi ymrwymo i Siarter Iaith, Sir Gâr ac wedi bod yn fuddugol i gael y wobr arian. Mae'r Cyngor Ysgol yn weithgar wrth osod targedau a threfnu gweithgareddau er mwyn "Joio byw yn Gymraeg" i fynd am y wobr aur.

## Hunan Arfarnu a Chynllun Datblygu'r Ysgol

Mae rhaglen arfarnu'r ysgol yn sicrhau bod holl bynciau ac agweddau'r cwricwlwm yn cael eu gwerthuso.
Mae'r agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach yn cael eu nodi ar Gynllun Datblygu'r Ysgol.
Mynycha'r staff Hyfforddiant mewn Swydd yn unol â gofynion Cynllun Datblygu'r Ysgol ac anghenion Datblygiad Proffesiynol.

## Adolygu Polisiau'r Ysgol

Lluniwyd nifer o bolisiau newydd sy'n cael eu rhannu gan y staff a'r Llywodraethwyr. Hyd yn hyn, rydym wedi adolygu a derbyn polisi Diogelu, Technoleg a Gwybodaeth a Chyfathrebu, Ymddygiad yn cynnwys Covid 19 ac E Ddiogelwch.

## Safonau Addysgu a Dysgu

Caiff safonau addysgu a dysgu eu monitro'n gyson gan arweinwyr pwnc, y Pennaeth, Llywodraethwyr, Ymgynghorwyr y Sir ac arolygwyr Estyn. Rydym wedi ymrwymo i godi safonau Sgiliau Sylfaenol mewn Llythrennedd a Rhifedd. Mae grwpiau o ddisgyblion yn cael gweithgareddau "Hwb Ymlaen" a "Dyfal Donc." Hefyd mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn cael sesiynau "Llythrennau a Synau" a disgyblion cyfnod allweddol dau sesiynau "Read, Write, Inc." Cafodd yr ysgol ei harolygu gan Estyn ym mis Chwefror a beirnadwyd fod y safonau yn dda.

## Anghenion Dysgu Arbennig

Nôd yr ysgol yw adnabod anghenion dysgu ychwanegol ein disgyblion cyn gynted â phosibl ac i gymryd y camau priodol i ateb eu gofynion.

Cadwn mewn cysylltiad agos â'r rhieni a defnyddiwn yr adnoddau priodol i roi cymorth i'r disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Rydym yn cael cymorth gan Seicolegydd Addysgol y Sir, yr Adran Ymddygiad a Therapydd iaith a lleferydd.
Mae'r polisi wedi cael ei adnewyddu a map o ddarpariaeth disgyblion yn cael ei adnewyddu yn ôl yr angen.

## Disgyblion ag Anabledd

Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn unol â pholisi Cyfle Cyfartal yr ysgol.
Mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r adeilad – toiledau anabledd, cawod, a.y.b. Mae hyn yn sicrhau mynediad llawn i'r adeilad ac i'r cwricwlwm.
Caiff plant ag anabledd corfforol eu derbyn a'u haddysgu yn ôl eu hanghenion fel y nodwyd gan yr asiantaethau eraill sy'n gofalu amdanynt er mwyn sicrhau parhad a chysondeb yn eu haddysgu.

## Ysgol Iach

Mae Ysgol Llannon yn dilyn cyfarwyddiadau Ysgolion Iach y Sir. Rydym fel ysgol yn pwysleisio gofalu am iechyd trwy annog byrbrydiau ffrwythau amser chwarae, dŵr yn unig yn y poteli a gwneud yn siwr bod cynnwys bocsys bwyd yn iach. Mae aelodau'r Cyngor Ysgol a Chyngor Ysgol Iach hefyd yn gyfrifol am werthu ffrwythau amser chwarae. Mae hyn yn helpu datblygu disgyblion rhifyddog. Eleni hefyd bu'r aelodau yn cynnig cyngor ar fod yn ddiogel yn yr heol, golchi dwylo, y plât bwyta'n iach ayb. Cafodd nifer o ddisgyblion eu hyfforddi gan y Sir ar "Bod yn Bydis." Mae'r bydis yn sicrhau nad oes neb heb ffrind amser egwyl. Mae'r cyfrifoldeb hyn yn helpu datblygu sgiliau cyfathrebu'r Bydis. Cynhaliwyd gweithdai i bob dosbarth gan SBECTRWM ar agweddau fel cadw'n ddiogel, perthnasedd, cam drin yn y cartref ayb. Hefyd cafodd ddisgyblion flwyddyn 5 a 6 weithdy gan yr NSPCC.
Mae llysgenhadwyr yr ysgol yn cyflwyno Hawliau Plant i holl ddisgyblion yr ysgol ac hefyd yn mynychu hyfforddiant gan Comisiynydd Plant Cymru. Yn ystod tymor yr Haf 2019 bu'r ysgol yn fuddugol i gael gwobr am eu gwaith ar yr elfen Diogelwch.

## Cysylltiadau â'r Gymuned

Mae Llywodraethwyr yr ysgol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Dirprwywyd cyfrifoldebau am agweddau a phynciau i bob un o'r llywodraethwyr.
Derbyniwn fyfyrwyr ar brofiad gwaith o'r Ysgol Uwchradd Maes y Gwendraeth ac o Golegau Lleol gan gynnwys Rhydaman, Llanelli a Choleg y Drindod. Daw rhai hefyd o'r Prince's Trust.
Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â'r Mudiad Meithrin sy'n cwrdd yn foreol yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cefnogi gweithgareddau'r Eglwys a'r Capel gan gynnwys y Gwasanaeth Diolchgarwch, Gwasanaeth Nadolig a'r Ffair Nadolig.
Mae perthynas agos iawn gyda'r ysgol a'r WI lleol.
Gwerthfawrogwn eu hymroddiad i ymweld â'r ysgol yn wythnosol i wrando ar blant yn darllen. Hefyd mae nifer ohonynt yn cynnal Clwb Gwau/Crefftau yn wythnosol i ddisgyblion Blwyddyn 6.
Rydym hefyd yn cefnogi'r Ffermwyr Ifanc mewn gwasanaethau a hyfforddiant.
Rydym hefyd wedi creu cysylltiadau agos gyda Heddlu Crosshands.
Mae P.C. Ali yn ymweld â'r Ysgol yn dymhorol i gynnal sesiynau – e.e. bwlian, cyffuriau, ymddygiad, llefydd diogel i chwarae a.y.b.

Croesawn aelodau'r gymuned i ymuno gyda ni mewn nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn –

- Ymweliadau gan y Ficer a'r Gwenidog lleol
- Ffair Nadolig
- Cyngerdd Nadolig
- Mabolgampau a Ffair Haf yr ysgol
- Disgos Tymhorol
- Casglu sbwriel yn y pentref yn ystod wythnos Cadw Cymru'n Daclus
- Cael help y gymuned ar ein Diwrnod Eco – aelodau'r Gymuned yn ymuno gyda ni i beintio, tacluso, plannu a.y.b.
- Sgiliau

Casglodd yr ysgol ar gyfer elusennau gan gynnwys Plant mewn Angen, Operation Christmas Child, noddi plentyn yn Luhimba ynghyd â Roald Dahl. Rydym hefyd wedi cyflwyno nifer o eitemau i Eisteddfod y Tymbl – yn ysgrifenedig, adrodd, canu ac offerynnol.

Annogwn ein disgyblion i ymuno â Llyfrgelloedd Lleol a chymryd rhan yn eu prosiect i annog darllen dros yr haf sef y Sialens Ddarllen.

Cynhaliwyd cyfarfodydd cymunedol yn yr ysgol.

Hefyd bu cynrychiolydd o Bwyllgor y Gymuned yn trafod gydag aelodau y Cyngor Ysgol am yr ofer hoffai ddisgyblion eu gweld yn y parc

Diolch i bawb am bob cefnogaeth dros y flwyddyn!

## <u>Cymdeithas Rhieni ac Athrawon</u>

Ymfalchiwn yn y berthynas agos sydd gan yr ysgol â'n rhieni. Mae'n polisi drws agored yn sicrhau fod rhieni yn cael eu croesawi i drafod unrhyw beth.

Mae'r Cymdeithas Rhieni ac Athrawon wedi bod yn weithgar iawn eleni eto. Maent wedi codi arian i dalu am :

- Bysus – amryw o weithgareddau a chystadlaethau- pêl rwyd, pêl droed yr Urdd ayb
- Gweithgareddau a gynhaliwyd yn neuadd y Gwendreath Drefach.

- Llyfrau Darllen Cymraeg
- Ynghyd â thalu am y ffotocopiwr.

Diolchwn i'r swyddogion am eu gwaith a'u hymroddiad dros y flwyddyn.

**Presenoldebau**

Presenoldebau am y flwyddyn o Fedi 4ydd 2019 i Fawrth 20fed 2020
– 94.33%

Targed Presenoldeb 2019- 2020 yw 97%

| Dosbarth | Presenoldeb % | Absenoldeb a chaniatad% | Absenoldeb heb ganiatad % |
|---|---|---|---|
| N2 a Derbyn/ Blwyddyn 1 | 94.35 | 5.23 | 0.42 |
| Blwyddyn 2 | 95.44 | 3.38 | 0.73 |
| Blwyddyn 3 a 4 | 94.67 | 4.25 | 1.08 |
| Blwyddyn 5 | 94.09 | 5.07 | 0.83 |
| Blwyddyn 6 | 92.99 | 6.42 | 0.59 |
| Ysgol gyfan | 94.33 | 4.94 | 0.73 |

**Penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod blynyddol diwethaf**

Ni wnaed unrhyw benderfyniadau yn y cyfarfod diwethaf.

**Llawlyfr yr Ysgol**

Mae llawlyfr yr ysgol wedi'i adolygu ac ar gael o swyddfa'r Ysgol ac ar wefan yr ysgol.

Y newidiadau a wnaed: staffio a llywodraethwyr.

**Trosglwyddo i Ysgolion Uwchradd.**

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn trosglwyddo i ysgol Maes y Gwendraeth. Bydd un disgybl yn mynychu Ysgol Bro Dinefwr

Targedau'r Ysgol a chynnydd

| **Targedau** | **Cynnydd** |
|---|---|
| Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wneud dewisiadau mewn perthynas a̓'u dysgu | Cafwyd sesiwn hyfforddi gan Mrs Murpy ar sut mae'r cyfnod sylfaen yn casglu barn a dewisiadau dysgu disgyblion.<br>Mae pob disgybl yn cael cyfle i fynegi eu barn am yr hyn hoffent ei ddysgu ar ddechrau thema neu uned newydd.<br>Disgyblion yn cael cyfle i werthuso ar ddiwedd thema gan nodi beth weithiodd yn dda. |
| Sicrhau bod cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau | Cyfarfod staff i sicrhau fod pawb gan gynnwys staff newydd, yn deall fod angen cynllunio cyfleoedd i gynnwys rhifedd ar |

| | |
|---|---|
| rhifedd ar draws y cwricwlwm | draws y thema.<br>Bu'r staff i gyfarfod clwstwr, ar rifedd ar draws y cwricwlwm er mwyn trefnu y ffordd ymlaen – arsylwi ar arfer dda, cynllunio ar y cyd ayb<br>Mae staff yn cynllunio ar gyfer rhifedd ar draws y cwricwlwm i bob thema ac yn ei rannu ar Sharepoint yr ysgol. |
| Gwella ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith y disgyblion | Staff wedi cytuno ar lawysgrifen glwm a fydd yn cael ei gyflwyno i ddisgyblion.<br>Llyfrau ymarfer llaw ysgrifen wedi ei roi i ddisgyblion.<br>Disgyblion yn cael amser i ymarfer.<br>Rhannu y targed gyda disgyblion fel eu bod yn ymwybodol fod angen cyflwyno'r gwaith taclusaf posib.<br>Staff i fodelu gwaith taclus i ddisgyblion.<br>Mae monitro llyfrau Cyfnod Allweddol 2 yn dangos ychydig wellaint. |

**Adeilad**

Mae gwelliannau yn cael eu gwneud gan y gofalwr yn ystod y gwyliau Haf a'r Cyfnod Clo. Bu'n peintio mynedfa a thoiledau y Dosbarth Derbyn ynghyd â thoiledau y merched a chornel darllen y cyfnod sylfaen.

**Toiledau**

Mae yma ddau floc o doiledau- un yn y Dosbarth Derbyn ac un i Ferched ac un i Fechgyn yn y brif goridor. Mae yna un toiled i staff a dau doiled anabl, un ar bob pen yr ysgol. Mae dau toilet yn y cabanau, un i ferched ac un i fechgyn. Maent yn cael eu glanhau ar ddiwedd y dydd

**Gweithgareddau'r ysgol**

**Chwaraeon**

- Etholwyd dau Lysgenhadwr Campau'r Ddraig
- Aeth y Llysgenhadwyr ar gwrs yn Neuadd y Gwendraeth.
- Bu disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn cynrychioli'r ysgol yn nhîm rygbi Cylch y Mynydd Mawr.
- Aeth disgyblion Blwyddyn 1a 2 i weithgareddau Aml Sgiliau.
- Bu disgyblion Blwyddyn 4, 5 a 6 yn cystadlu yng nghystadleuaeth Trawsgwlad y Sir. Gwnaeth pawb yn dda iawn!.
- Bu'r merched yn cystadlu yng nghystadleuaeth Pêl Rwyd yr Urdd.
- Bu'r disgyblion yn cystadlu yng nghystadleuaeth Rygbi'r Urdd.
- Bu'r Llysgenhadon ar gwrs adrodd nôl ar eu gwaith er mwyn rhannu arfer dda.

- Mae holl ddisgyblion a staff yr ysgol yn cymryd rhan wrth gerdded neu redeg Milltir y Dydd i wella ffitrwydd a lles.

**Cysylltiadau Cymunedol**

- Bu disgyblion Blynyddoedd 3,4,5 a 6 yn gweld cyngerdd yr Athrawon Peripatetig
- Cynhaliwyd Gwasanaeth Cynhaeaf yn yr ysgol
- Cafwyd canu carolau ar yr iard a chyfeiliwyd gan grwp pres a chyn ddisgyblion yr ysgol.
- Bu parti recorders yr ysgol yn perffromio yng nghyngerdd Band Crwbin a fuodd ar y teledu dros y Nadolig.
- Bu disgyblion yn cystadlu yn Eisteddfod y Tymbl drwy adrodd, canu, ysgrifennu barddoniaeth, ysgrifennu storiau, llawysgrifen a gweithgareddau celf.
- Cynhaliwyd Nosweithiau Rhieni dros gyfnod o wythnos
- Bu pawb yn dathlu Diwrnod y Llyfr drwy ddod a hoff lyfrau i'r ysgol.
- Aeth disgyblion y cyfnod sylfaen i ymweld â Theatr y Ffwrnes yn Llanelli i weld y sioe " Rwts Rats"
- Aeth merched blynyddoedd 3,4 a 5 i weithdy gwyddonaieth ar Amelia Earhart.
- Cystadleuodd nifer o ddisgyblion yn rhagbrofion Eisteddfod yr Urdd. Bu nifer yn llwyddiannus i fynd drwyddoi'r Eisteddfod.
- Bu disgyblion yn creu dyluniadau i uwchraddio parc Llannon.
- Cynhaliwyd Gwasanaeth arbennig i ddisgyblion Blwyddyn 6 i'w rhieni, teuluoedd a ffrindiau gan gynnwys y WI, yn ddigidol ar Teams.

**Cymdeithas Rhieni ac Athrawon**

- Cynhaliodd y G.Rh.A. ddisgo Pasg a disgo Nadolig Cynhaliwyd Mabolgampu'r Ysgol
- Cynhaliwyd Ffair Haf yr ysgol

**Clybiau Allgyrsiol**

- Clwb Chwaraeon i flynyddoedd 3,4,5 a 6 yn wythnosol ar Ddydd Mercher
- Clwb Ffilmiau yn achlysurol i Flwyddyn 3,4, 5 a 6
- Clwb Gwau/Crefftau wythnosol i Flwyddyn 6 gan y WI
- Clwb Eco yn achlysurol i bawb

**Cyngor Ysgol**

- Trefnodd y Cyngor ysgol ddiwrnod gwisgo lan i godi arain i Blant mewn Angen.
- Daeth Pudsey Bear i'r ysgol ar Ddiwrnod Plant mewn Angen
  Codwyd £197.37 i Blant mewn Angen

- Siarter Iaith yn ysgol Llannon-Penderfynwyd ar weledigaeth sef “Joio Byw yn Gymraeg”
- Llenwyd holiadur y Siarter Iaith a dadansoddwyd y canlyniadau i osod targedau i fynd am y obr Aur.
- Dyluniwyd posteri i annog ddisgyblion i wylio rhaglenni teledu yn y Gymraeg a gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg.

**Cyngor Eco**

- Dathlwydd Wythnos Masnach Deg drwy gynnal gwasanaeth arbennig a gwerthu ffrwythau masnach deg
- Bu pob disgybl yn rhan o adolygiad Eco’r ysgol.
- Bu’r Cyngor Eco yn helpu gyda phlannu o amglch yr ysgol, arwain y blaen ar osod yr abwydfa a chreu system i gaslu a gosod pil ffrwythau yn yr abwydfa.
- Bu alodauo’r Cyngor Eco yn rhan o’r broses o gasglu barn disgyblion ar yr hyn oeddynt am weld yn y parc. Bu’r cynogor Eco yn cydweithio gyda aelod o’r Pwyllgor Gymuned drwy rannu syniadau pawb.
  Bu’r Cyngor yn llwyddiannus i gynnal y wobr Platinwm.

**Cyngor Ysgol Iach / Lles**

- Cafwyd ymweliad gan PC Ali a bu’n cynnal gweithdai ar –cadw’n ddiogel, bwlio, cyffuriau, diogelwch ayb
- Cynhaliwyd diwrnod E Ddiogelwch yn yr ysgol.
- Dathlwyd Wythnos Masnach Deg gyda gwasanaethau arbennig.
- Cynhaliwyd gystadleuaeth creu poster i annog blant i Olchi Dwylo.
- Cynhaliodd y NSPCC weithdy gan ddisgyblion Blwyddyn 6.
- Cynhaliwyd weithdai i bob dosbarth gan SBECTRWM ar gadw’n ddiogel, cam drin domestig ayb
- Cafodd bwb weithday gan Elinor o’r Gwasanaeth Tan.
- Wedi hyfforddiant ar Feddwlgarwch cyflwynodd y staff weithgareddau Meddwlgarwch ac ioga i ddisgyblion.

**Cwricwlwm Cymreig**

- Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus a chwis ar Ddydd Gwyl Dewi.
- Bu nifer o ddisgyblion yn cystadlu yn Rhagbrofion Eisteddfod Sir yr Urdd.
- Bu pob disgybl yng Nghyfnod Allweddol 2 yn cymryd rhan yn rownd cyntaf y Cwis Llyfrau.
- Bu dau grwp - tîm Blwyddyn 3 a 4 a thîm Blwyddyn 5 a 6 yn fuddugol i fynd ymlaen i rownd Sirol y Cwis Llyfrau.
- Bu tîm o flwyddyn 5 a 6 yn cynrychioli’r ysgol mewn cwis- Dim Clem a drefnwyd gan Menter Cwm Gwendraeth Elli.

**Llwyddiannau**

- Llongyfarchiadau i Llewelyn Josey ar fod yn fuddugol yng nghystadleuaeth Canned a TaTa Steel ar ddylunio a chreu pecyn o ddefnyddiau wedi eu hailgylchu.
- Ennillodd £25 a rhoiodd yn rhodd i Gronfa Hywel Dda.
- Bu Cyngor Iach yr Ysgol yn fuddugol i gael gwobr am eu gwaith ar Ddiogelwch.
- Bu Cyngor Eco yr ysgol yn fuddugol i gynnal y wobr Platinwm.
- Bu Lewis Thomas yn cynrychioli'r ysgol ar y Bwrdd Gweithredol Bach fel Emlyn Bach.
- Bu Lewis Thomas yn llwyddiannus i gael y wobr gyntaf wrth ddylunio carden Nadolig
  - Bu Callum Clarke yn fuddugol wrth ddylunio poster am covid 19.
  - Cafodd Lili Ellis ei dewis fel Chwaraewr Pêl Droed Sirol y flwyddyn.

## Profiad Gwaith

Ni ddaeth unrhyw ddisgybl ar brofiad gwaith.

## Covid 19- 20/3/2020- 1/7/2020

- Bu Mrs Murphy a Mr Edwards yn hunan ynysu ac felly bu Mr Owen a Miss Blight yn cyflenwi yn y Cyfnod sylfaen.
- Bu Mrs Passmore a Miss Robert yn paratoi pecyn o weithgareddau i bob disgybl yn y cyfnod sylfaen.
- Gosodwyd prosiectau i ddisgyblion cyfnod allweddol 2.
- Bu staff yr ysgol yn cyfathrebu yn feunyddiol ar Whatts ap.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd staff wythnosol ar Teams- i drafod ymrhoddiad disgyblion i ddysgu ar lein, unrhyw broblemau ayb.
- Bu Sian y glanhawraig yn roi glanhauad ddwfn i'r ysgol ynghyd a gweithio yn yr hwb ym Mhontyberem .
- Bu staff yr ysgol yn gweithio yn yr Hwb ym Mhontyberem yn edrych ar Ôl plant gweithwyr alweddol.
- Bu staff wrthi yn ddiwyd yn paratoi gwaith ar lein i ddisgyblion- ar hwb i'r cyfnod sylfaen a Google Classrooms i gyfnod allweddol 2.
- Danfonwyd pecyn o waith i ddisgyblion nad oedd ganddynt offer TGCh.
- Dechreuodd Mrs Murphy ei chyfnod mamoliaeth ac ar Fai 11ddeg roiodd enedigaeth i efeilliaid sef Gwen ac Iolo.
- Dechreuodd Miss Sioned Huxtable ei swydd a bu'n cydweithio gyda Mr Edwards a Mrs Rees o Ysgol Bancffosfelen yn creu gwaith ar lein i'r Cyfnod Sylfaen.

- Bu'r staff wrthi yn creu fideo i ddymuno'n dda i Mrs Murphy ac i groesawu Miss Huxtable.
- Roedd Mr Edwards a'i bartner Nia wedi dyweddio.Llongyfarchiadau Mawr!
- Bu'r Cadeirydd Mr James Ellis yn cysylltu'n wythnosol gyda'r pennaeth.
- Rhannwyd yr holl wybodaeth o'r Awdurod Lleol gan rieni ar Twitter, gwefan yr ysgol ac ar Parent Pay.
- Cafwyd sesiwn siecio i fewn gyda disgyblion cyfnod allweddol 2 ar lein ar Google Classrooms yn ddyddiol.
- Bu staff yn ffonio disgyblion bregus yn wythnosol.
- Cafodd ddisgyblion gyfleoedd i gael llyfru darllen os oeddynt yn dymuno er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddarllen llyfrau Cymraeg.
- Bu disgyblion yn rhannu fideos ar hwb a google classrooms ohonynt yn gwneud gweithgareddau gwahanol e.e. milltir y dydd, coginio, gweithio yn yr ardd ayb
- Rhanwyd lincs i wahanol wefannau defnyddiol e.e.Gareth Metcalfe Mthemateg, LLyfrgell sir Gar, Orielodl,Tim Datblygu'r Gymraeg, menter Cwm Gwendraeth Elli ayb
- Pan oedd amser yn caniatau bu staff yn cwbwlhau hyfforddiant ar lein e.e. Diogelu Data, Iechyd meddwl yn y gweithlu, Cam drin , yr iaith Gymraeg, ayb
- Danfonwyd llythyron i ddisgyblion newydd a oedd i ddechrau ym mis Ebrill.
- Agorwyd Hwb yn Ysgol Llannon ar Fehefin 22ain i blant gweithwyr allweddol yr ysgol.
- Trefnodd y Cadeirydd i symud y desgaiu o ddosbarthiadau er mwyn paraoti i sesiynau Dal i fyny.
- Bu'r staff wrthi yn paratoi yr ysgol i ddisgyblion ar gyfer sesiynau Dal i fyny ar Fehefin 29ain.
- Ail agorodd yr ysgol i ddisgyblion ar Fehefin 29ain fel bod disgyblion yn gallu Dal i Fyny a pharatoi i dymor yr Haf a Hydref. Bu'r Hwb yn cael ei gynnal yn neuadd yr ysgol.
- Trefnodd y Cadeirydd i symud desgiau i'r dosbarthiadau i baratoi ar gyfer yr holl ddisgyblion ym mis Medi.

## <u>Dyddiadau y Tymor</u>

**TYMHORAU A GWYLIAU YSGOL - BLWYDDYN ACADEMAIDD 2020/2021**

| | | Gwyliau Hanner Tymor | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tymor** | **Dechrau'r Tymor** | **Dechrau** | **Diwedd** | **Diwedd Tymor** | **Dyddiau** |
| **Hydref 2020** | Dydd Mercher 2il Medi | Dydd Llun 26ain Hydref | Dydd Gwener 30ain Hydref | Dydd Mawrth 22ain Rhagfyr | 75 |
| **Gwanwyn 2021** | Dydd Mawrth 5ed Ionawr | Dydd Llun 15fed Chwefror | Dydd Gwener 19eg Chwefror | Dydd Gwener 26ain Mawrth | 54 |
| **Haf 2021** | Dydd Llun 12fed Ebrill | Dydd Llun 31ain Mai | Dydd Gwener 4ydd Mehefin | Dydd Gwener 16eg Gorffennaf | 64 |
| Dyddiau HMS Penodol - Dydd Mawrth, Medi 1af, 2020; Dydd Llun, Ionawr 4ydd, 2021 | | | | | 2 |
| **Cyfanswm** | | | | | **195** |

O.N. Gwener y Groglith - 2il Ebrill 2021
Gŵyl Fai - 3ydd Mai 2021

Bydd holl ysgolion Sir Gâr yn gorffen y flwyddyn ar Fedi 18fed 2020.